# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 8 Mawrth 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Ar gyfer pob un o'r tair blynedd diwethaf, beth oedd cyfanswm cyllideb Busnes Rhyngwladol Cymru ac a all y Gweinidog roi amcan o'i gyllideb yn y dyfodol. (WAQ55724)

***Rhoddwyd ateb ar 16 Mawrth 2010***

Y gyllideb ar gyfer 2007/08 oedd £12,069,000; yn 2008/9, roedd yn £6,975,000, i adlewyrchu'r ffaith bod cyllideb y rhaglenni marchnata rhyngwladol wedi'i throsglwyddo i atgyfnerthu'r gyllideb farchnata yn Adran yr Economi a Thrafnidiaeth, a bod yr adnoddau wedi'u hailflaenoriaethu'n fewnol; ac yn 2009/10, roedd yn £5,975,000, i adlewyrchu'r ffaith bod swyddogaeth a chyllideb Busnes Creadigol Cymru wedi'u trosglwyddo i Dechnoleg ac Arloesi.

Penderfynir ar gyllidebau'r dyfodol ar sail casgliadau Cynllunio Adnoddau Menter a'n casgliadau ni.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol*

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu unrhyw gyflawniadau y gellir eu priodoli i'r Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb dros y flwyddyn diwethaf. (WAQ55720)

***Rhoddwyd ateb ar 16 Mawrth 2010***

Lansiwyd y Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb ym mis Medi 2009 yn bennaf ar gyfer cyllid craidd a chyllid prosiectau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2010/11. Mae'r gronfa yn dechrau ar 1 Ebrill 2010, a hysbyswyd yr ymgeiswyr am ganlyniad y broses gwneud cais ar 15 Chwefror 2010. Roedd cyfran fach o gyllid hefyd ar gael ar gyfer grantiau bach yn ystod y flwyddyn ar gyfer 2009 gwerth £57,622 a ddyfarnwyd i 13 sefydliadau a restrir isod.

| Sefydliad | Dyfarniad |
|---|---:|
| Anabledd Powys | £6,000 |
| Pobl yn Gyntaf Cymru | £10,615 |
| Tîm Cefnogi Ieuenctid Ethnig | £10,250 |
| Cyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol y Cymoedd (VALREC) prosiect 1 | £3,000 |
| Cyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol y Cymoedd (VALREC) prosiect 2 | £3,000 |
| Merched yn Gwneud Gwahaniaeth | £3,000 |
| Canolfan Sanatan | £750 |

| | |
|---|---|
| Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan - prosiect 1 | £2,925 |
| Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan - prosiect 2 | £3,610 |
| BRfm (Best Radio for miles) | £1,500 |
| Urban Circle | £1,500 |
| YWCA Cymru a Lloegr | £2,472 |
| Clymblaid Pobl Anabl Caerdydd a'r Fro (CVCDP) | £9,000 |
| **Cyfanswm** | £57,622 |

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r rhesymau dros yr oedi wrth weinyddu'r Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb cyn cyhoeddi'r ceisiadau llwyddiannus ar 14 Chwefror 2010. (WAQ55721)

***Rhoddwyd ateb ar 16 Mawrth 2010***

Rwy'n ymwybodol o'r oedi a fu o ran gweinyddu'r Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb cyn i'r ceisiadau llwyddiannus gael eu cyhoeddi. Rwyf hefyd yn ymwybodol o'r cwyn a wnaed ar y mater hwn o dan y Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector. Mae fy swyddogion wrthi'n ymchwilio i'r gŵyn.

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i gyllido corff eirioli annibynnol sy'n gweithio dros gyfle cyfartal i ferched yng Nghymru. (WAQ55722)

***Rhoddwyd ateb ar 16 Mawrth 2010***

Mae cyrff eirioli annibynnol sy'n gweithio dros gyfle cyfartal ar gyfer pob un o'r meysydd cydraddoldeb yng Nghymru yn bwysig, gan gynnwys gweithio dros gyfle cyfartal i ferched yng Nghymru. Nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ariannu unrhyw gorff eirioli annibynnol penodol sy'n gweithio dros gyfle cyfartal - mae'r holl gyllid ar gyfer cyllid craidd a chyllid prosiectau ym maes cydraddoldeb ar gael drwy gystadleuaeth a phroses gwneud cais ffurfiol i'r Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb; cyhoeddwyd canlyniadau'r Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb ar gyfer 2010/11, 2011/12 a 2012/13 ar 15 Chwefror 2010.

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu pwysigrwydd cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru. (WAQ55723)

***Rhoddwyd ateb ar 16 Mawrth 2010***

Mae rhywedd yn un o'r meysydd cydraddoldeb, ac felly, mae'n bwysig bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau yng Nghymru, a'i bod yn hyrwyddo cydraddoldeb yn fwy cyffredinol.